# Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019

**2019 dccc 2**

**RHAN 4**

GORFODAETH

*Hysbysiadau cosb benodedig*

**13 Hysbysiadau cosb benodedig**

(1) Pan fo gan swyddog awdurdodedig awdurdod gorfodi reswm i gredu bod person wedi cyflawni trosedd o dan adran 2 neu 3 yn ardal yr awdurdod, caiff y swyddog roi hysbysiad cosb benodedig i'r person hwnnw mewn cysylltiad â'r drosedd.

(2) Hysbysiad cosb benodedig, at ddibenion is-adran (1), yw hysbysiad sy'n cynnig y cyfle i berson ryddhau unrhyw atebolrwydd i gael euogfarn am y drosedd y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef drwy dalu cosb o £1000.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau roi swm gwahanol yn lle'r swm a bennir am y tro yn is-adran (2).

(4) Mae hysbysiad cosb benodedig a roddir o dan yr adran hon i'w drin fel pe bai wedi ei roi o dan adran 29 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (dccc 7) at ddibenion is-adrannau (2), (3) a (6) i (8) o'r adran honno (darpariaeth ynghylch sut y rhoddir hysbysiadau cosb benodedig) ac at y diben hwn mae'r cyfeiriad at "yr awdurdod trwyddedu" yn is-adran (8)(a) o'r adran honno i'w drin fel pe bai'n gyfeiriad at yr awdurdod gorfodi o dan sylw.

(5) Ni chaniateir i dderbyniadau cosb benodedig a geir gan awdurdod gorfodi yn rhinwedd yr adran hon gael eu defnyddio heblaw at ddiben swyddogaethau'r awdurdod sy'n ymwneud â gorfodi darpariaethau'r Ddeddf hon.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019, Croes Bennawd: Hysbysiadau cosb benodedig. (See end of Document for details)*

**Addasiadau (ddim yn newid testun)**

**C1** Rhn. 4 applied (ynghyd â modifications) (1.9.2019) by Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 (Darpariaeth Drosiannol ar gyfer Tenantiaethau Byrddaliadol Sicr) 2019 (O.S. 2019/1151), rhlau. 1(2), **3**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 13 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 30(2)**

**I2** A. 13 mewn grym ar 1.9.2019 gan O.S. 2019/1150, **ergl. 2(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019, Croes Bennawd: Hysbysiadau cosb benodedig.